Oeddech chi'n gwybod?

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu dillad a chyfarpar ysgol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru os ydynt:

- yn mynd i mewn i ddosbarth derbyn mewn ysgol gynradd
- ar ddechrau unrhyw un o'r cyfnodau allweddol, e.e. Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 neu Gyfnod Allweddol 4 (cynradd ac uwchradd)
- yn 4, 7, 11 neu 14 oed mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion.



Bydd cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol.

Bydd gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd yr hawl i **£125** ar gyfer pob cais.

Gall plant sy'n dechrau Blwyddyn 7 wneud cais am **£200** i helpu gyda chostau ychwanegol dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Bydd y gronfa'n cynnwys gwisg ysgol, dillad eraill sy'n cael eu gwisgo yn yr ysgol fel dillad chwaraeon, cyfarpar ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol (gan gynnwys dysgu awyr agored), a chyfarpar ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm megis dylunio a thechnoleg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40907

Sut i wneud cais

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol:
llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission